OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 625 (Cy. 104)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Cyfnewidfa'r Pîl) hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Margam), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*22 Mai 22025*
Yn dod i rym	*2 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Cyfnewidfa'r Pîl) hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Margam), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Mehefin 2025.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 2 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbytffordd tua'r gorllewin na cherbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Pennir y llwybrau eraill hefyd yn yr un Atodlen.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 2

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

a 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 5, 6, 7 ac 8 yn weithredol.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio cerbyd esempt, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr, 40 milltir yr awr neu 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

7. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

8. Caiff y llain galed sy'n gyfagos i'r darnau o draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fod ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig gan bob cerbyd modur.

Atal dros dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

10. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(**1**) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbytffordd tua'r gorllewin a cherbytffordd tua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed benodedig gan erthygl 11.

Cymhwyso

11.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(**1**) O.S. 1982/1163.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mai 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 37 hyd at y pwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 38 yn ymuno â'r draffordd.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 38 hyd at y pwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 37 yn ymuno â'r draffordd.

3. Llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fyddai ymadael â'r draffordd wrth Gyffordd 37, cymryd yr 2il allanfa i'r A4229, yna ymuno â'r A48 tua'r gorllewin yn y Pîl a pharhau ar hyd yr A48 nes ailymuno â'r draffordd wrth Gyffordd 38. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50mya, 40mya a 30mya a Dim Goddiweddyd

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno wrth Gyffordd 36 hyd at bwynt ar ben dwyreiniol y parth terfyn cyflymder 50mya presennol a leolir 400 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 40.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ben

dwyreiniol y parth terfyn cyflymder 50mya presennol a leolir 400 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 40 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 36 ar y gerbytffordd tua'r dwyrain.

ATODLEN 3
Gwrthlif dros dro, caniatáu traffig ar y lleiniau caled a dim goddiweddyd

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 37 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 38.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 38 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 37.